# Ymgysylltu â defnyddwyr: data ar siaradwyr Cymraeg y tu allan i Gymru

## 1. Gwybodaeth i ymatebwyr

**Diolch am gymryd rhan yn ein hymarfer ymgysylltu â defnyddwyr!**

Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021 ar y Gymraeg, rydym yn cydweithio â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i archwilio data ar siaradwyr Cymraeg y tu allan i Gymru.
Ar hyn o bryd, mae diffyg data cynhwysfawr ar siaradwyr Cymraeg yng ngweddill y Deyrnas Unedig (DU), ac rydym am ddeall anghenion defnyddwyr yn well yn y maes hwn.
Wrth i'n poblogaeth ddod yn fwyfwy symudol, mae'r angen am well dealltwriaeth o'r sefyllfa hon yn cynyddu. Hoffem glywed eich barn ar ba ddata sydd eu hangen arnoch chi, a sut y gallech chi eu defnyddio.
Bydd eich adborth yn ein helpu i ddeall anghenion ein defnyddwyr yn well a sicrhau y byddai unrhyw ddata a gesglir yn berthnasol ac yn ddefnyddiol.

Nid yw'n ofynnol i ymatebwyr ateb pob cwestiwn. Ewch ymlaen i unrhyw adrannau sy'n berthnasol i chi, gan wneud yn siŵr eich bod yn dal i glicio ar 'Gorffen yr arolwg' ar y diwedd ar ôl i chi orffen.

Daw'r arolwg i ben ar 5 Mai 2025. Bydd canfyddiadau cychwynnol yr ymarfer hwn ar gael erbyn diwedd y flwyddyn.

**Data personol**
Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw eich cyfeiriad e-bost, ac unrhyw wybodaeth bersonol a roddwch fel rhan o'ch ymateb, am hyd at flwyddyn a dim ond yn eu defnyddio os bydd angen i ni gysylltu â chi i ddeall yr ymatebion a ddarparwyd gennych ymhellach neu am gwestiynau dilynol. Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol ag unrhyw drydydd parti. Bydd unrhyw wybodaeth anadnabyddadwy (fel crynodeb o ymatebion a gynhyrchir gennym gan yr holl ymatebwyr) yn cael ei chadw am gyfnod amhenodol.
Efallai yr hoffech ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd , efallai y byddwch hefyd am ddarllen y polisi preifatrwydd ar SmartSurvey.

**Diolch yn fawr.**

# 2. Data sgiliau yn y Gymraeg

**1. Pa wybodaeth am siaradwyr Cymraeg y tu allan i Gymru fyddai yn ddefnyddiol i chi neu eich sefydliad? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)**

- [ ] Y gallu i siarad Cymraeg (er enghraifft, nifer y siaradwyr)
- [ ] Gallu ar draws y pedair sgil iaith (siarad, darllen, ysgrifennu Cymraeg a deall Cymraeg llafar)
- [ ] Amlder siarad Cymraeg (er enghraifft, bob dydd, bob wythnos)
- [ ] Cyd-destunau y defnyddir y Gymraeg ynddynt ar hyn o bryd (er enghraifft, cartref, gwaith, addysg, lleoliadau cymdeithasol)
- [ ] Dosbarthiad daearyddol siaradwyr (er enghraifft, rhanbarth, awdurdod lleol)
- [ ] Other (please specify):

**2. Os mai dim ond mathau penodol o ddata y gellid eu casglu, trefnwch y canlynol yn ôl eu pwysigrwydd i chi neu'ch sefydliad (1 = pwysicaf, 5 = lleiaf pwysig).**

| | |
|---|---|
| Y gallu i siarad Cymraeg (er enghraifft, nifer y siaradwyr) | |
| Gallu ar draws y pedair sgil iaith (siarad, darllen, ysgrifennu Cymraeg a deall Cymraeg llafar) | |
| Amlder siarad Cymraeg (er enghraifft, bob dydd, bob wythnos) | |
| Cyd-destunau y defnyddir y Gymraeg ynddynt ar hyn o bryd (er enghraifft, cartref, gwaith, addysg, lleoliadau cymdeithasol) | |
| Dosbarthiad daearyddol siaradwyr (er enghraifft, rhanbarth, awdurdod lleol) | |
| Arall (fel nodwyd yn flaenorol) | |

**3. Yn eich barn chi, pa mor aml y dylid casglu ac adrodd ar ddata ar siaradwyr Cymraeg y tu allan i Gymru er mwyn olrhain newidiadau dros amser yn effeithiol?**

- [ ] Mwy nag unwaith y flwyddyn
- [ ] Yn flynyddol
- [ ] Bob dwy flynedd
- [ ] Bob pum mlynedd
- [ ] Arall (nodwch os gwelwch yn dda):

**4. Pa ddadansoddiadau o ddemograffeg siaradwyr Cymraeg y tu allan i Gymru fyddai'n ddefnyddiol i chi neu eich sefydliad? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)**

- [ ] Oedran
- [ ] Rhyw
- [ ] Lleoliad daearyddol
- [ ] Galwedigaeth
- [ ] Ethnigrwydd
- [ ] Arall (nodwch os gwelwch yn dda):

# 3. Defnydd o'r data

**5. Sut byddech chi neu eich sefydliad yn defnyddio data am siaradwyr Cymraeg y tu allan i Gymru, pe bai ar gael? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol a rhowch fanylion pellach.)**

- ☐ Cynllunio a darparu gwasanaethau yn Gymraeg y tu allan i Gymru
- ☐ Datblygu polisïau neu strategaethau iaith
- ☐ Monitro effaith rhaglenni a/neu bolisïau
- ☐ Adroddiadau ymchwil neu bolisi
- ☐ Cefnogi rhwydweithiau a digwyddiadau Cymraeg
- ☐ Ddim angen y data ar gyfer unrhyw bwrpas penodol
- ☐ Arall (nodwch os gwelwch yn dda):

Os yw'n berthnasol, disgrifiwch sut y byddai'r data hwn yn cael ei ddefnyddio yn eich gwaith:

# 4. Effaith diffyg data

**6. Ydy'r diffyg data presennol am siaradwyr Cymraeg y tu allan i Gymru yn effeithio ar unrhyw rai o'ch gweithgareddau neu amcanion (naill ai'n bersonol neu o fewn eich sefydliad)?**

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy

Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda:

## 5. Sylwadau ychwanegol

**7. A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill yr hoffech eu rhannu am gasglu data ar y Gymraeg y tu allan i Gymru?**

# 6. Amdanoch chi

Er mwyn deall cyd-destun eich ymatebion yn well, gofynnwn yn garedig am fanylion eich sefydliad. Mae darparu'r wybodaeth hon yn ddewisol, ond bydd yn gymorth mawr i ni wella ein gwasanaethau a deall cefndiroedd amrywiol ein hymatebwyr, p'un a ydych yn cynrychioli sefydliad neu'n ymateb fel unigolyn.

## 8. Manylion eich sefydliad (dewisol)

***Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch enw a manylion eich sefydliad a'ch rôl o fewn y sefydliad.***

## 9. Ymatebydd unigol (dewisol)

***Os ydych yn ymateb fel unigolyn, rhowch unrhyw fanylion perthnasol am eich cefndir.***

## 10. Os ydych yn hapus i ni gysylltu â chi am eglurhad neu gwestiynau dilynol ynghylch eich ymatebion, rhowch eich cyfeiriad e-bost isod. (dewisol)

**I gael rhagor o fanylion am sut rydym yn trin gwybodaeth bersonol, ewch at ein hysbysiad preifatrwydd.**